

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English



**Polisi
Derbyn I
Ysgolion
2022/2023**

Cyngor Caerdydd

Addysg A Dysgu Gydol Oes

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Cynnwys

- 1. Cyflwyniad**
 - 1.1 Derbyn i Ysgolion
 - 1.2 Ardal Berthnasol ar gyfer Ymgynghoriad
 - 1.3 Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd
 - 1.4 Dalgylchoedd Ysgolion Cymunedol
 - 1.5 Plant â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).
 - 1.6 Plant ag ADY (anghenion dysgu ychwanegol) sydd â CDU (Cynllun Datblygu Unigol) sydd yn enwi ysgol
 - 1.7 Ceisiadau y Tu Allan i'r Oedran Cronolegol
 - 1.8 Symudiadau a Reolir gan yr Ysgol
 - 1.9 Protocol Mynediad Teg
 - 1.10 Trefniadau Cydlynol Derbyn i Ysgolion Uwchradd
 - 1.11 Diogelu Data a Rheoliad Diogelu Data Cyffredin yr UE
- 2. Gwneud Cais**
 - 2.1 Sut i wneud cais
 - 2.2 Cyn Gwneud Cais
 - 2.3 Yr Ymgeisydd
 - 2.4 Ceisiadau mewn pryd (a ystyrir yn ystod y 'rownd derbyn normal')
 - 2.5 Ceisiadau mewn pryd (a ystyrir yn ystod y 'rownd derbyn arferol')
 - 2.6 Gwybodaeth nad yw'r Cyngor yn ei hystyried wrth ddyrannu llefydd
 - 2.7 Ceisiadau ar gyfer derbyn i Flwyddyn 11
- 3. Derbyniadau I Ysgolion A Dosbarthiadau Meithrin Cymunedol**
 - 3.1 Meini Prawf Pan Fo Gormod o Ymgeiswyr
 - 3.2 Ceisiadau Hwyr
 - 3.3 Dim Hawl ar Apêl Statudol
 - 3.4 Cyllid y Blynyddoedd Cynnar
- 4. Derbyn I Ysgolion Cynradd Cymunedol Ac Ysgolion Cynradd Gwirfoddol A Reolir**
 - 4.1 Meini Prawf Pan Fo Gormod o Ymgeiswyr
 - 4.2 Ceisiadau Hwyr
 - 4.3 Apeliadau Statudol
 - 4.4 Dechrau wedi'i Ohirio
 - 4.5 Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Lloneirwg
- 5. Derbyn I Ysgolion Uwchradd Cymunedol**
 - 5.1 Meini Prawf pan fo Gormod o Ymgeiswyr – Dewis 1
 - 5.2 Ceisiadau Hwyr
 - 5.3 Apeliadau Statudol
- 6. Derbyn I Chweched Dosbarth**
- 7. Eglurhad Ar Y Meini Prawf Gordanystrifio**
 - 7.1 Manylion y Plentyn - Cyfeiriad
 - 7.2 Newid Cyfeiriad
 - 7.3 Plant sy'n Derbyn Gofal neu a Arferai Dderbyn Gofal.
 - 7.4 Cynllun Datblygu Unigol (CDU)
 - 7.5 Byw yn y Dalgylch Diffiniedig
 - 7.6 Rhesymau Meddygol/Cymdeithasol Cryf
 - 7.7 Brodyr a chwiorydd
 - 7.8 Mwy nag un brawd/chwaer genedigol
 - 7.9 Agosrwydd
- 8. Tystiolaeth Ddogfen Mae'n Bosibl Y Bydd Ei Hangen Gan Ymgeiswyr**
 - 8.1 Cyflwyno dogfennau sy'n berthnasol i blentyn Personél Lluedd y DU neu Weision eraill y Goron
 - 8.2 Cyflwyno dogfennau sy'n gysylltiedig i Gyfeiriad Cartref Plentyn
 - 8.3 Cyflwyno dogfennau sy'n berthnasol i Seiliau Meddygol Cryf neu Seiliau Cymdeithasol Cryf
- 9. Proses Cynigion**
 - 9.1 Cynigion Ysgol
 - 9.2 Dim Cynnig Ysgol
 - 9.3 Newid mewn amgylchiadau
 - 9.4 Diddymu Cynnig Ysgol
 - 9.5 Rhestrau aros

Atodiad 1 – Nifer Derbyniadau i'r Ysgol 2022/23

1. Cyflwyniad

1.1 Derbyn i Ysgolion

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu ysgolion lleol i blant lleol lle y bo'n bosibl.

Mae gan rieni (y cyfeirir atynt hefyd fel 'ymgeiswyr' yn y ddogfen polisi hon) hawl i fynegi eu dewis ysgolion) yr ystyrir yn unigol a chydymffurfir â hynny pan fo'n bosibl.

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac i ddileu gwahaniaethu. O ran derbyn i ysgolion, caiff yr holl ddisgyblion a darpar ddisgyblion eu trin yn deg waeth beth yw eu rhyw, hil, ethnigrwydd, diwylliant, cenedligrwydd, iaith, gallu / anabled neu gred crefyddol / digrefydd. Cymerir camau i sicrhau nad yw gweithdrefnau derbyn yn manteisio nac yn anfanteisio unrhyw grwpiau trwy'r cais nac yn gosod amodau na all pawb gydymffurfio â nhw yn gydradd.

Cymeradwyir yr holl geisiadau i'r dosbarthiadau cymunedol ac ysgolion cymunedol gan Gyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes Cyngor Caerdydd.

1.2 Ardal Berthnasol ar gyfer Ymgynghoriad

Yn unol â'r Rheoliadau Addysg (Meysydd Perthnasol ar gyfer Ymgynghori ar Drefniadau Derbyn) 1999, yr ardal berthnasol ar gyfer ysgolion cymunedol yng Nghaerdydd yw ardal weinyddol Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd (y Cyngor Sir).

1.3 Derbyn a Gyhoeddwyd

Yn y rownd derbyn arferol, rhaid i bob ysgol a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at gyrraedd ei Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd. Ni cheir gwrthod cais am le yn unrhyw ysgol tan y mae'n cyrraedd ei Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd (ac eithrio disgyblion wedi eu diarddel ddwywaith [cyfeiriwch at 3.58 – 3.60 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru dogfen rhif 005/2013]). Mae'r Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd wedi ei gyfrifo yn unol â chylchlythyr methodoleg cyfrifo capasiti ysgol Llywodraeth Cymru "Mesur Capasiti Ysgolion Cymru" rhif 021/2011. Gan fod y rhif hwn yn seiliedig ar gapasiti corfforol yr ysgol i dderbyn disgyblion, ni ddylid derbyn rhagor fel arfer.

1.4 Dalgylchoedd Ysgolion Cymunedol

Mae gwybodaeth am ddalgylchoedd ar gael ar wefan y Cyngor. Mae rhan fwyaf dalgylchoedd ysgolion cynradd a gynhelir wedi eu grwpio ynghyd i ffurfio dalgylchoedd ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghaerdydd.

Gall dalgylchoedd newid ac ymgynghorir ar unrhyw newid cyn ei weithredu. Ni warentir y cynigir lle i blentyn yn ei ysgol ddalgylch.

1.5 Plant â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Pan enwir ysgol gymunedol mewn Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig, mae'n rhaid derbyn y plentyn i'r ysgol honno.

1.6 Plant ag ADY sydd â CDU (Cynllun Datblygu Unigol) sydd yn enwi ysgol

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd plant sydd ag ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) yn gallu derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt mewn unrhyw ysgol a gynhelir.

Gall y Cyngor ddewis enwi ysgol a gynhelir yn y CDU ar ddibenion sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn i ysgol benodol.

Ni fydd y Cyngor yn enwi ysgol mewn CDU, at ddibenion sicrhau mynediad, oni bai fod anghenion ac amgylchiadau'r plentyn gyfryw ag y dylent fod yn mynychu'r ysgol benodol honno.

Bydd y Cyngor yn ystyried yn ffactorau canlynol:

- Pa un ai yw nodweddion penodol yr ysgol yn ei gwneud yn arbennig o dda wrth wneud y ddarpariaeth gofynnol yn y DDY (darpariaeth dysgu ychwanegol) o'i chymharu ag ysgolion eraill a gynhelir y gallai'r plentyn eu mynychu – er enghraifft, nodweddion ffisegol yr ysgol;
- Pa un ai a oes aelodau staff gan yr ysgol sydd ag arbenigedd neu hyfforddiant arbennig, neu arbenigedd o ran angen isel o ran niferoedd fel offer clywed neu weld (er enghraifft os oes canolfan adnoddau arbenigol gan yr ysgol);
- Byddai'n afresymol i ysgol fwy lleol ddarparu DAY (Darpariaeth Dysgu ychwanegol) y plentyn;
- Unrhyw ffactorau eraill y tybia'r awdurdod lleol sydd yn berthnasol i achos penodol.

Pan gaiff ysgol ei henwi mewn CDU ar ddiben sicrhau lle derbyn, rhaid i'r plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol.

1.7 Ceisiadau y Tu Allan i'r Oedran Cronolegol

Mae Cyngor Caerdydd yn gweithredu polisi ar wahân ar gyfer ceisiadau y Tu Allan i Oed Cronolegol.

Os bydd rhiant yn gofyn am roi ei blentyn/phlentyn mewn grŵp blwyddyn sydd y tu allan i'w oedran cronolegol a bod y cais ar yr adeg derbyn, bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu pob cais yn seiliedig ar ei amgylchiadau unigol. Cyswllt: ceisiadauallanogrpblwyddyn@caerdydd.gov.uk.

1.8 Symudiadau a Reolir gan yr Ysgol

Mae Cyngor Caerdydd yn gweithredu polisi ar wahân ar gyfer Symudiadau Wedi eu Rheoli gan Ysgolion

Gall ysgolion ymgymryd â gwaith rheoli symud disgyblion. Bydd y rhain yn cael eu trin yn wahanol i dderbyniadau arferol a bydd y plentyn yn aros ar gofrestr yr

ysgol y mae'n gwneud cais i drosglwyddo ohoni tan ddiwedd y cyfnod yn rheoli'r symud.

Ar ddiwedd y cyfnod symud a reolir, os yw'n llwyddiannus, caiff y plentyn ei ychwanegu at gofrestr yr ysgol sy'n ei dderbyn. Os nad yw'r symud a reolir yn llwyddiannus, bydd y plentyn yn dychwelyd i fynychu'r ysgol yr oedd yn ymgeisio i drosglwyddo ohoni. Dylid trafod pob symud a reolir rhwng yr ysgolion gyda chynrychiolydd o'r Cyngor.

1.9 Protocol Mynediad Teg

Mae Cyngor Caerdydd yn cynnal Protocolau Mynediad Teg ar gyfer plant sy'n agored i niwed yn unol â Chod Derbyn i Ysgolion Atodiad D Paragraff 5.

Rôl y Panel Mynediad Teg yw sicrhau bod plant sy'n agored i niwed ac yn 'anodd eu lleoli' yn gallu cael mynediad at addysg ac yn cael eu lleoli'n deg o fewn y ddinas. Bydd y Panel Mynediad Teg yn asesu pob disgybl ac ysgol yn ôl á'r graddau y maent yn agored i niwed a bydd, (mewn cyfranogiad gyda phob ysgol uwchradd drwy'r panel Plant Anodd eu Lleoli), yn rhoi'r plant hyn mewn ysgolion a all ddiwallu eu hanghenion yn y modd mwyaf effeithlon ac a fydd yn cael yr effaith leiaf negyddol ar effeithiolrwydd addysg yng Nghaerdydd.

Bydd y Panel Protocol Mynediad Teg yn monitro cydymffurfiaeth â'r protocolau Mynediad Teg a bydd yn sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â gweithdrefnau.

1.10 Trefniadau Cydlynol Derbyn i Ysgolion

Bydd y Cyngor yn parhau i gydlynu trefniadau derbyn i ysgolion uwchradd, sy'n berthnasol i bob ysgol uwchradd gymunedol; Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi; Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Teilo ac Ysgol Uwchradd (Sefydledig) yr Eglwys Newydd.

Bydd y Cyngor hefd yn cydlynu trefniadau derbyn gydag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg.

1.11 Diogelu Data a Rheoliad Diogelu Data Cyffredin yr UE

Bydd yr holl ddata personol yn cael ei brosesu yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) 2018 a Deddf Diogelu Data 2018.

2. Gwneud Cais

2.1 Sut I Wneud Cais

Mae'n rhaid cyflwyno cais i ysgol y mae'r rhiant am i'w plentyn fynychu. Mae'r Cyngor yn derbyn ceisiadau drwy Wasanaeth Gwneud Cais Ar-lein y Cyngor neu ffurflen dewis wedi'i chwblhau drwy e-bostio i derbyniysgolion@caerdydd.gov.uk <<mailto:schooladmissions@cardiff.gov.uk>> neu ei phostio i Derbyn i Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW. Nid yw'r Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw golli data sy'n ganlyniad i'r dull y mae'r ymgeisydd yn ei ddewis i gyflwyno'r wybodaeth.

2.2 Cyn Gwneud Cais

Mae cyfleuster ar wefan Cyngor Caerdydd i rieni gael cyflwyno manylion eu plentyn a derbyn gwybodaeth ar sut mae gwneud cais am le mewn ysgol ar yr adeg gywir yn unol ag amserlen derbyn i ysgolion y Cyngor.

Caiff rhieni sydd wedi cofrestru manylion eu plentyn cyn oedran meithrin â'r Cyngor eu cynghori i wneud cais am le mewn ysgol feithrin gymunedol trwy ddefnyddio'r Gwasanaeth Gwneud Cais Ar-lein neu trwy gwblhau ffurflen ddewis.

Caiff rhieni sydd wedi cofrestru manylion eu plentyn oedran ysgol feithrin neu eu plentyn ieuengaf â'r Cyngor eu cynghori i wneud cais am le yn nosbarth derbyn eu hysgol gynradd gymunedol ddewis yn ystod Tymor yr Hydref cyn y derbyn, gan ddefnyddio Gwasanaeth Gwneud Cais Ar-lein y Cyngor neu trwy gwblhau ffurflen ddewis.

Yn Nhymor yr Hydref cyn derbyn, gwahoddir rhieni plant Blwyddyn 6 i enwebu eu dewis ysgol(ion) uwchradd trwy ddefnyddio Gwasanaeth Gwneud Cais Ar-lein y Cyngor neu trwy gwblhau ffurflen ddewis.

Caiff unrhyw riant nad yw wedi cofrestru ei blentyn o flaen llaw wneud cais am le mewn ysgol serch hynny.

2.3 Yr Ymgeisydd

Ceisiadau a gyflwyna 'rhiant' y plentyn (fel y diffinnir yn Adran 576 Deddf Addysg 1996) yn unig a ystyria'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n rhiant i'r plentyn neu berson ifanc ond mae ganddo gyfrifoldeb rhiant drosto neu ofal drosto.

Mae canllaw cyfreithiol ar wahân ar gael ar gyfer gwrthdaro rhieni mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion.

Cyn cyflwyno cais, dylai rhieni drafod â'r ysgol y maent am i'r plentyn fynd iddi a cheisio dod i gytundeb, yn arbennig os oes gan fwy nag un person gyfrifoldeb rhiant.

2.4 Ceisiadau mewn pryd (a ystyrir yn ystod y 'rownd derbyn normal')

Derbyn i'r Ysgol Feithrin o Ddechrau'r Tymor:

Caiff rhieni sy'n cyflwyno cais erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig wybod am ganlyniad eu cais trwy e-bost neu lythyr erbyn y dyddiad hysbysu cyhoeddedig. Gweler paragraffau 3.1.1; 3.1.2 a 3.1.3 am fanylion y dyddiadau cyhoeddedig.

Derbyniadau i'r Dosbarth Derbyn o ddechrau'r Flwyddyn Academaidd:

Dim ond ceisiadau a ddaw i law erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig perthnasol ar gyfer ffurflenni dewis, sef dydd Dydd Llun, 10 Ionawr 2022, a gaiff eu hystyried yn rownd gyntaf dyrannu lleoedd. Cyflwynir penderfyniadau trwy e-bost neu lythyr i roi gwybod i ymgeiswyr am ganlyniad eu cais ar ddydd Mawrth 19 Ebrill 2022.

Trosglwyddo i Flwyddyn 7 o ddechrau'r Flwyddyn Academaidd:

Dim ond ceisiadau a ddaw i law erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig perthnasol ar gyfer ffurflenni dewis, sef dydd Llun 22 Tachwedd 2021, a gaiff eu hystyried yn rownd gyntaf dyrannu lleoedd. Cyflwynir penderfyniadau trwy e-bost neu lythyr i roi gwybod i ymgeiswyr am ganlyniad eu cais ar ddydd Mawrth 1 Mawrth 2022.

2.5 Ceisiadau mewn pryd (a ystyrir yn ystod y 'rownd derbyn arferol')

Ar ôl y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd, caiff ceisiadau hwyr eu hystyried yn unol â'r Meini Prawf Derbyn a gyhoeddwyd gan y Cyngor.

Wedi dyddiadau cau'r rownd gyntaf, y nesaf yw:

- Derbyn i Addysg Feithrin – diwrnod olaf bob mis
- Derbyn i Addysg Gynradd (Derbyn o fis Medi) – 9 Mai 2022
- Trosglwyddo i Addysg Uwchradd (Blwyddyn 7 o fis Medi) – 15 Mawrth 2022

Y dyddiadau ar gyfer rowndiau dilynol fydd y diwrnod olaf o bob mis.

Bydd ceisiadau a wrthodwyd o'r rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd ac unrhyw geisiadau hwyr wedi hynny yn cael eu hystyried ar y cyd ar gyfer unrhyw leoedd a allai godi.

2.6 Gwybodaeth nad yw'r Cyngor yn ei hystyried wrth ddyrannu llefydd

At ddibenion derbyn i Ysgol Feithrin Gymunedol:

- Yr ysgol gynradd benodol y mae'r plentyn yn debygol o fynychu;
- Cyfnod yr amser y bu'r ysgol feithrin yn ymwybodol o fwriad y plentyn i wneud cais am le ynddi;
- Gwahoddiad i, neu bresenoldeb plentyn mewn diwrnod blasu.

At ddibenion derbyn i Ysgol Gynradd Gymunedol neu Ysgol a Reolir yn Wirfoddol:

- Yr ysgol uwchradd benodol y mae'r plentyn yn debygol o fynychu;
- Cyfnod yr amser y bu'r ysgol yn ymwybodol o fwriad y plentyn i wneud cais am le ynddi;
- Presenoldeb mewn Dosbarth Meithrin Cymunedol yn yr un ysgol – rhaid gwneud cais ar wahân i drosglwyddo o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd;
- Gwahoddiad i, neu bresenoldeb plentyn mewn diwrnod blasu/pontio.

At ddibenion derbyn i Ysgol Uwchradd Gymunedol:

- Y chweched dosbarth penodol y mae'r plentyn yn debygol o fynychu;
- Cyfnod yr amser y bu'r ysgol yn ymwybodol o fwriad y plentyn i wneud cais am le ynddi;
- Gwahoddiad i, neu bresenoldeb plentyn mewn diwrnod blasu/pontio.

2.7 Ceisiadau ar gyfer derbyn i Flwyddyn 11

Gall rhieni fynegi dewis ar gyfer mwy nag un ysgol. Cynigir blaenoriaeth uchaf y rhiant, sydd ar gael. Ni chynigir y dewisiadau is ond os nad yw dewisiadau blaenoriaethol y rhieni ar gael.

3. Derbyniadau I Ysgolion A Dosbarthiadau Meithrin Cymunedol

Y Cyngor yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl Ysgolion Meithrin Cymunedol a gynhelir a Dosbarthiadau Meithrin mewn Ysgolion Cymunedol ac ysgolion a reolir yn wirfoddol yn Ninas a Sir Caerdydd. Nid Cyngor Caerdydd yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Dosbarthiadau Meithrin mewn Ysgolion a Gynorthwyr yn Wirfoddol yng Nghaerdydd.

Mae gan blant hawl ar le meithrin rhan amser o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Dywed Rheoliad 4 Rheoliadau Addysg Cymru (Addysg Feithrin a Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a'r Cynlluniau Gofal Plant):

- Caiff plant a aned rhwng Ebrill 1 a diwedd tymor yr haf gymryd lle ysgol ar ddechrau tymor yr hydref.
- Caiff plant a aned rhwng Medi 1 a diwedd tymor yr hydref gymryd lle ysgol ar ddechrau tymor y gaeaf.
- Caiff plant a aned rhwng Ionawr 1 a diwedd tymor y gwanwyn gymryd lle ysgol ar ddechrau tymor yr haf.

Er bod addysg feithrin yn ddarpariaeth anstatudol, rhaid i blant fod yn bresennol am bum hanner niwrnod os yw'r cynnig lle mewn meithrinfa gymunedol neu un a reolir yn wirfoddol wedi'i dderbyn.

Gellir derbyn neu drosglwyddo plant i feithrinfa gymunedol neu feithrinfa a reolir yn wirfoddol drwy gydol y flwyddyn academaidd ar yr amod bod lleoedd ar gael.

Os nad oes digon o geisiadau i ysgol feithrin gymunedol neu un a reolir yn wirfoddol, gellir cynnig lle mewn meithrinfa i bob ymgeisydd.

3.1 Meini Prawf Pan Fo Gormod o Ymgeiswyr

Pan fo gormod o geisiadau ar gyfer y llefydd mewn ysgol feithrin gymunedol neu un a reolir yn wirfoddol, caiff y ceisiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig eu hystyried yn unol â'r meini prawf gormod o geisiadau a osododd y Cyngor yn nhrefn blaenoriaeth [1.(a) yr uchaf] hyd at gyrraedd y nifer a gymeradwywyd:

1. Ar gyfer ceisiadau sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig, sef dydd Llun 21 Chwefror 2022, ar gyfer plant a aned rhwng 1 Medi 2018 a 31 Awst 2019 (yn cynnwys y dyddiadau hyn):
 - (a) Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr neu blant a arferai dderbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr.*
 - (b) Plant sy'n destun Cynllun Datblygu Unigol (CDU) lle yr enwir ysgol benodol*
 - (c) Plant y mae ganddynt frawd neu chwaer (mewn unrhyw grŵp oedran rhwng y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 6, gan gynnwys y blynyddoedd hynny) a fydd ar y gofrestr yn yr ysgol lle mae'r dosbarth meithrin pan gânt eu derbyn. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *
 - (d) Plant y mae, ym marn y Cyngor, rhesymau meddygol neu gymdeithasol cryf dros eu derbyn i ysgol/dosbarth meithrin penodol. Pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i frodyr/chwiorydd genedigaeth luosog. *
 - (e) Plant sy'n byw agosaf at yr ysgol/dosbarth meithrin, fel y mesurir yn ôl y llwybr diogel byrraf.
2. O ran ceisiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd, sef dydd Llun 4 Gorffennaf 2022 ar gyfer plant a aned rhwng 1 Medi 2019 a 31 Rhagfyr 2019, gweithredir meini prawf (a) i (e) [uchod].

*Pan fo nifer y ceisiadau yn uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, gweler paragraff '7.9 Agosrwydd'.

3. O ran ceisiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd, sef dydd Llun 4 Gorffennaf 2022 ar gyfer plant a aned rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Mawrth 2020 (yn cynnwys y dyddiadau hyn), gweithredir meini prawf (a) i (e) [uchod].
4. Pan fo gormod o geisiadau am ysgol gynradd gymunedol, a byddai un (neu ragor) o frodyr a chwiorydd genedigaeth luosog yn cael lle ond ni fyddai un (neu ragor) o'r brodyr a chwiorydd genedigaeth luosog yn cael cynnig lle gan fod y Nifer Derbyn Cyhoeddedig wedi'i fodloni, bydd y Cyngor yn derbyn gweddill y brodyr a chwiorydd genedigaeth luosog.

3.2 Ceisiadau Hwyr

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau hwyr ar y cyd ag ymgeiswyr 'ar amser' a fu'n aflwyddiannus pan fo llefydd yn agor mewn ysgol feithrin gymunedol neu un a reolir yn wirfoddol y mae rhagor o geisiadau ar ei chyfer na sydd o lefydd ynddi a gweithredir y meini prawf derbyn fel y noda'r Cyngor (uchod).

3.3 Dim Hawl ar Apêl Statudol

Gan fod addysg feithrin yn ddarpariaeth anstatudol, nid oes gan rieni hawl statudol i apelio dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 os na chânt le meithrin.

Nid yw mynychu dosbarth meithrin yn golygu bod gan y plentyn hwnnw hawl awtomatig i gael lle mewn dosbarth derbyn yn yr un ysgol. Rhaid gwneud cais newydd am le mewn dosbarth derbyn.

3.4 Cyllid y Blynyddoedd Cynnar

Pan nad oes lle ar gael mewn addysg feithrin mewn dosbarthiadau neu ysgolion meithrin cymunedol neu rai a reolir yn wirfoddol lleol, o fewn dwy (2) filltir i gartref y plentyn, caiff rhieni wneud cais am gyllid lle meithrin gyda darparwr gofal plant cydnabyddedig a bennir gan y Cyngor. The two (2) mile radius is measured by the Council as the shortest safe available route. Bydd y Cyngor yn mesur y radiws dwy (2) filltir fel y ffordd ddiogel fyrraf sydd ar gael.

Ni fydd y Cyngor ond yn cymeradwyo ceisiadau am gyllid â darparwr gofal plant cydnabyddedig y mae Cyngor Caerdydd ei hun yn ddewis. Os cynigir lle mewn ysgol feithrin gymunedol neu un a reolir yn wirfoddol ac mae'r rhiant yn gwrthod y cynnig, ni fydd y Cyngor yn cymeradwyo ceisiadau am gyllid. Ni fydd y Cyngor ond yn cymeradwyo cyllid os nad oes llefydd ar gael o fewn dwy filltir o gartref plentyn ac os cyflwynwyd y cais ar amser (gweler isod am y terfynau amser).

Pryd dylid gwneud cais:

- Dylid gwneud cais am y cyllid hwn yn y tymor cyn i'r plentyn gychwyn mewn addysg feithrin;
- Os yw eich plentyn yn cychwyn mewn addysg feithrin â darparwr gofal plant cydnabyddedig yn hwyrach, dylech gyflwyno ceisiadau yn y tymor y caiff ei dderbyn.

Gofynion Cymhwyster: Bydd eich plentyn yn gymwys,

- Os yw'n byw yng Nghaerdydd **a**
- Gellir profi ei fod yn byw yma, **ac**
- Mae gennych dystiolaeth o'ch cyfrifoldeb rhiant **ac**
- Nid oes lle ar gael mewn dosbarth neu ysgol feithrin gymunedol neu un a reolir yn wirfoddol yn lleol o fewn dwy filltir o'ch cartref, **neu**
- Mae seiliau meddygol neu gymdeithasol cryf sy'n atal y plentyn rhag mynd i'r ddarpariaeth feithrin gymunedol neu un a reolir yn wirfoddol sydd ar gael yn lleol.

Gwneud cais: I wneud cais:

- Mae angen i rieni gwblhau Cais am Gyllid y Blynyddoedd Cynnar;
- Mae angen i rieni gadarnhau tystiolaeth o'u preswylfa fel y nodir yng nghofnodion Treth Gyngor Caerdydd neu gofnodion eraill y Cyngor;
- Mae angen i rieni ddangos tystiolaeth o'u cyfrifoldeb rhiant, trwy gyflwyno tystysgrif geni, gorchymyn llys neu ddangos pasbort sy'n cynnwys enw'r plentyn a'r rhiant.

Gwneud cais ar seiliau meddygol/cymdeithasol cryf:

- Mae angen i rieni gyflwyno tystiolaeth ddogfen gan weithiwr proffesiynol. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:
 - Argymhelliad gan weithiwr cymdeithasol;
 - Argymhellid ysgrifenedig gan ymgynghorydd meddygol;
- Rhaid i argymhellion gynnwys dyddiad nad yw dros dri mis cyn dyddiad gwneud y cais;
- Rhaid i argymhellion ysgrifenedig roi rhesymau manwl dros pam na all y plentyn fynd i'r meithrinfeydd cymunedol neu rai a reolir yn wirfoddol yn lleol sydd ar gael.

Cynnig Gofal Plant 30 Awr

Os ydynt yn gymwys, gall rhieni gael gofal plant am 30 awr wedi ei ariannu trwy'r 'Cynnig Gofal Plant'. Yn ystod tymor yr ysgol, bydd 30 awr yn cynnwys cyfuniad o ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen sydd ar gael i bob plentyn 3 a 4 oed (fel arfer 12.5 awr yr wythnos) a'r gofal plant ychwanegol a ariennir (hyd at 17.5 awr yr wythnos). Am 9 wythnos y flwyddyn, y tu allan i dymor yr ysgol, gall caiff rhieni fynediad at 30 awr lawn o ofal plant a ariennir trwy'r Cynnig Gofal Plant.

Os nad yw plentyn yn defnyddio'r ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen, bydd ganddo hawl ar elfen gofal plant y Cynnig yn ystod y tymor ysgol (39 wythnos y flwyddyn) ac ar 30 awr o ofal plant a ariennir gan y llywodraeth dros y 9 wythnos arall.

Caiff plant cymwys fanteisio ar y Cynnig o ddechrau'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed tan y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed pan fyddant yn cychwyn addysg amser llawn.

4. Derbyniadau I Ysgolion Cynradd Cymunedol Ac Ysgolion Cynradd A Reolir Yn Wirfoddol

Y Cyngor yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer holl ysgolion cynradd cymunedol a'r rhai a gynhelir yn Ninas a Sir Caerdydd. Nid Cyngor Caerdydd yw'r awdurdod derbyn ar gyfer ysgolion cynradd gwirfoddol a gynorthwyir yng Nghaerdydd.

Caiff plant eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn (y cyfeirir ato hefyd fel Blwyddyn 0) y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair yn y rownd derbyniadau arferol.

Gellir derbyn neu drosglwyddo plant i ysgol gynradd gymunedol neu ysgol gynradd wirfoddol a reolir y tu allan i'r rownd derbyniadau arferol yn dibynnu ar argaeledd (ac eithrio disgyblion sydd wedi eu diarddel ddwywaith [cyfeiriwch at 3.58 - 3.60 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru dogfen rhif. 005/2013]).

Pan nad yw ysgol gynradd gymunedol neu un wirfoddol a reolir yn llawn, gellir cynnig lle i bob ymgeisydd (ac eithrio disgyblion sydd wedi eu diarddel ddwywaith [cyfeiriwch at 3.58 - 3.60 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru dogfen rhif 005/2013]). Mae gan Gyngor Caerdydd hefyd Brothocolau Mynediad Teg ar gyfer lleoli plant sy'n agored i niwed sy'n trosglwyddo'r tu allan i'r rownd derbyn arferol. Nod y protocolau yw sicrhau bod plant sy'n agored i niwed ac anodd eu lleoli yn cael mynediad at addysg ac yn cael eu lleoli yn deg yn y ddinas.

4.1 **Meini Prawf Ysgolion Cynradd Gymunedol Pan Fo Gormod o Ymgeiswyr** Oversubscription Criteria

Where a community primary school is oversubscribed, preferences received by the published closing date will be considered in accordance with the oversubscription criteria set by the Council in order of priority [1. being the highest] up to the approved capacity and will not normally exceed the school's Published Admission Number or breach the limitations imposed by statutory maximum class size (30) where this applies: Pan fo ysgol gynradd gymunedol yn derbyn rhagor o geisiadau na sydd o lefydd, caiff y ceisiadau a ddaw i law erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig eu hystyried yn unol â'r meini prawf perthnasol a osoda'r Cyngor, yn nhrefn blaenoriaeth [1. yw'r uchaf] hyd nes llenwi'r flwyddyn ysgol ac fel arfer ni chaiff rhagor na'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig eu derbyn ac ni thorri'r cyfyngiadau a osodir gan yr uchafswm maint dosbarth statudol (30) pan fo'n berthnasol:

1. Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr neu blant a arferai dderbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr.*
2. Plant sy'n destun Cynllun Datblygu Unigol (CDU), lle yr enwir ysgol benodol*
3. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol **ac** y mae, ym marn y Cyngor, resymau meddygol neu gymdeithasol cryf dros eu derbyn i ysgol benodol. *
4. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol **ac** y mae ganddynt frawd neu chwaer a fydd ar y gofrestr yn y Dosbarth Derbyn neu o Flwyddyn 1 i 6 yn yr ysgol pan gânt eu derbyn. *
5. Plant y mae ganddynt frawd/chwaer yn mynychu'r ysgol ac a gafodd eu derbyn cyn y newid i'r dalgylch
 - a) Lle derbyniwyd brawd/chwaer hŷn i ysgol a arferai fod yn ysgol y dalgylch a'u bod yn parhau i fynychu'r ysgol honno, os bydd y rhiant yn dymuno bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i frodyr a chwiorydd iau i hen ysgol y dalgylch.

b) Lle derbyniwyd brawd neu chwaer hŷn i ysgol gymunedol, y mae'n dal i'w mynychu, ac na sefydlwyd dalgylch pendant ar adeg derbyn y brawd neu chwaer hŷn, os yw'r rhiant yn gwneud cais bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i frodyr a chwiorydd iau ar gyfer yr ysgol hon.*

6. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol. *

*Pan fo nifer y ceisiadau yn uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, gweler paragraff '7.9 Agosrwydd'.

7. Disgyblion y mae, ym marn y Cyngor, resymau meddygol neu gymdeithasol cryf dros eu derbyn i ysgol benodol. *

8. Disgyblion y mae ganddynt frawd neu chwaer a fydd ar gofrestr yr ysgol yn y Dosbarth Derbyn neu o Flwyddyn 1 i 6 yn yr ysgol pan gânt eu derbyn. *

9. Wrth benderfynu ar geisiadau i'w derbyn o ran disgyblion eraill, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol fel y mesurir yn ôl y llwybr diogel byrraf.

10. Pan fo gormod o geisiadau am ysgol gynradd gymunedol, a byddai un (neu ragor) o frodyr a chwiorydd genedigaeth luosog yn cael lle ond ni fyddai un (neu ragor) o'r brodyr a chwiorydd genedigaeth luosog yn cael cynnig lle gan fod y Nifer Derbyn Cyhoeddedig wedi'i fodloni, bydd y Cyngor yn derbyn gweddill y brodyr a chwiorydd genedigaeth luosog.

4.2 Ceisiadau Hwyr

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau hwyr ar y cyd ag ymgeiswyr 'ar amser' a fu'n aflwyddiannus, pan fo llefydd yn agor mewn ysgol gynradd leol neu un wirfoddol a reolir y mae rhagor o geisiadau ar ei chyfer na sydd o lefydd ynddi, a gweithredir y meini prawf derbyn a osoda'r Cyngor (uchod).

4.3 Apeliadau Statudol

Os yw plentyn wedi cael gwrthod mynediad i ysgol gynradd gymunedol neu un wirfoddol a reolir, gellir cyflwyno apêl i'r Panel Apelio Annibynnol ar gyfer Mynediad Statudol i Ysgolion.

4.4 Dechrau wedi'i Ohirio

Nid oed gofyn i blentyn gychwyn yn yr ysgol gynradd tan ddechrau'r tymor sy'n dilyn ei ben-blwydd yn bump oed; fodd bynnag, ni chaniateir gohirio cychwyn yn hwyrach na dechrau'r tymor wedi ei ben-blwydd yn bump. Cedwir y lle a ohirir ar gyfer y plentyn ac ni fydd ar gael i blentyn arall. Argymhellir y trafodir unrhyw ystyriaeth i ohirio â Phennaeth yr ysgol gynradd benodol.

4.5 Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg

Dylid cyflwyno ceisiadau derbyn i'r Cyngor.

Os oes gordanysgrifio adeg y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau, bydd y Cyngor yn ystyried yr holl geisiadau yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio a osodwyd gan y Cyngor. Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried pob cais yn unol a meini prawf gordanysgrifio'r ysgol.

Pan fo'r ysgol wedi ei gordanysgrifio, bydd y dewisiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau cyhoeddiedig yn cael eu hystyried a 30 lle yn cael eu dyrannu.

Bydd 15 lle yn cael eu dyrannu yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio a osodwyd gan y Cyngor yn adran 4.1.

Bydd 15 lle yn cael eu dyrannu yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio a osodwyd gan yr ysgol.

Nid yw mynychu dosbarth meithrin yn golygu bod gan y plentyn hwnnw hawl awtomatig i gael lle mewn dosbarth derbyn yn yr un ysgol. Rhaid gwneud cais newydd am le mewn dosbarth derbyn.

5. Derbyn I Ysgolion Uwchradd Cymunedol

Cyngor Caerdydd yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr holl ysgolion uwchradd cymunedol a gynhelir yn Ninas a Sir Caerdydd. Nid Cyngor Caerdydd yw'r awdurdod derbyn ar gyfer ysgolion uwchradd sefydledig neu rai gwirfoddol a gynorthwyir yng Nghaerdydd.

Bydd plant yn trosglwyddo i Flwyddyn 7 y mis Medi sy'n dilyn eu pen-blwydd yn un ar ddeg oed yn ystod y rownd derbyn arferol.

Gellir derbyn neu drosglwyddo plant i ysgol uwchradd gymunedol y tu allan i'r rownd derbyniadau arferol yn dibynnu ar argaeledd (ac eithrio disgyblion sydd wedi eu diarddel ddwywaith [cyfeiriwch at 3.58 - 3.60 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru dogfen rhif. 005/2013]).

Pan nad yw ysgol uwchradd gymunedol yn llawn, gellir cynnig lle i bob ymgeisydd (ac eithrio disgyblion sydd wedi eu diarddel ddwywaith [cyfeiriwch at 3.48 - 3.60 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru dogfen rhif 005/2013]). Mae gan Gyngor Caerdydd hefyd Brothocolau Mynediad Teg ar gyfer lleoli plant sy'n agored i niwed sy'n trosglwyddo'r tu allan i'r rownd derbyn arferol. Nod y brothocolau yw sicrhau bod plant sy'n agored i niwed ac anodd eu lleoli yn cael mynediad at addysg ac yn cael eu lleoli yn deg yn y ddinas.

5.1 Meini Prawf Pan Fo Gormod o Ymgeiswyr

Pan fo ysgol uwchradd gymunedol yn derbyn rhagor o geisiadau na sydd o lefydd, caiff y ceisiadau a ddaw i law erbyn y ddyddiad cau cyhoeddiedig eu hystyried yn unol â'r meini prawf perthnasol a osoda'r Cyngor, yn nhrefn blaenoriaeth [1. yw'r uchaf] hyd nes llenwi'r flwyddyn ysgol ac fel arfer ni dderbynnir rhagor na'r Nifer Derbyn Cyhoeddiedig:

1. Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr **neu** blant a arferai dderbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr. *
2. Plant sy'n destun Cynllun Datblygu Unigol (CDU), lle yr enwir ysgol benodol.
3. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol **ac** y mae, ym marn y Cyngor, resymau meddygol neu gymdeithasol cryf dros eu derbyn i ysgol benodol. *

4. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol **ac** mae ganddynt frawd neu chwaer a fydd ar y gofrestr ym Mlwyddyn 7 i 11 yn yr ysgol pan gânt eu derbyn*
5. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol. *
6. Disgyblion y mae, ym marn y Cyngor, resymau meddygol neu gymdeithasol cryf dros eu derbyn i ysgol benodol. *

*Pan fo nifer y ceisiadau yn uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael,
gweler paragraff '7.9 Agosrwydd'.

7. Disgyblion y mae ganddynt frawd neu chwaer a fydd ar gofrestr yr ysgol o Flwyddyn 7 i 11 yn yr ysgol pan gânt eu derbyn. *
8. Wrth benderfynu ar geisiadau i'w derbyn o ran disgyblion eraill, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol fel y mesurir yn ôl y llwybr diogel byrraf.
9. Pan fo gormod o geisiadau am ysgol uwchradd gymunedol, a byddai un (neu ragor) o frodyr a chwiorydd genedigaeth luosog yn cael lle ond ni fyddai un (neu ragor) o'r brodyr a chwiorydd genedigaeth luosog yn cael cynnig lle gan fod y Nifer Derbyn Cyhoeddedig wedi'i fodloni, bydd y Cyngor yn derbyn gweddill y brodyr a chwiorydd genedigaeth luosog.

5.2 Ceisiadau Hwyr

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau hwyr ar y cyd ag ymgeiswyr 'ar amser' a fu'n aflwyddiannus, pan fo llefydd yn agor mewn ysgol uwchradd y mae rhagor o geisiadau ar ei chyfer na sydd o lefydd ynddi, a gweithredir y meini prawf derbyn a osoda'r Cyngor (uchod).

5.3 Apeliadau Statudol

Os yw plentyn wedi cael gwrthod mynediad i ysgol uwchradd gymunedol, gellir cyflwyno apêl i'r Panel Apelio Annibynnol ar gyfer Mynediad Statudol i Ysgolion.

Nid yw mynychu ysgol gynradd gymunedol neu un wirfoddol a reolir sydd yn nalgylch ysgol uwchradd gymunedol yn rhoi hawl uniongyrchol i blentyn ar le yn yr ysgol honno. Rhaid gwneud cais newydd i drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

6. Derbyn I Chweched Dosbarth

Mae'r Cyngor wedi cytuno i ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros bennu trefniadau derbyn i chweched dosbarth i Gyrrff Llywodraethu Ysgolion Cymunedol. Dylid gwneud ceisiadau am le yn uniongyrchol i'r ysgol.

7. Eglurhad Ar Y Meini Prawf Gordanysgrifio

7.1 Manylion y Plentyn - Cyfeiriad

Rhaid defnyddio cyfeiriad cartref y plentyn ar y cais, hwn yw'r lle y mae plentyn yn byw drwy gydol neu ran helaeth yr wythnos ysgol. Darllenwch 'Cyflwyno dogfennau sy'n gysylltiedig â Chyfeiriad Cartref Plentyn' (8.2). Mae'n bosibl na dderbynia'r Cyngor gyfeiriad a roddir os nad oes tystiolaeth bod rhiant y plentyn yn byw yno.

Er mwyn cymhwyso fel 'cyfeiria cartref y plentyn' at ddibenion derbyn, rhaid bod y plentyn yn byw yno ar ddyddiad y cais. Os yw'r plentyn yn symud cartref wedi gwneud cais a chyn y dyddiad y byddai'r plentyn yn cychwyn yn yr ysgol, rhaid i'r rhiant roi gwybod i'r Cyngor yn ysgrifenedig (mewn e-bost neu lythyr), yn nodi'r cyfeiriad newydd, fel arall, caiff cynnig lle mewn ysgol ei ddiddymu a bydd angen gwneud cais newydd.

7.2 Newid Cyfeiriad

Os yw ymgeisydd yn symud i gyfeiriad ar unrhyw adeg rhwng cyflwyno cais a'r plentyn yn mynychu ysgol lle cafodd gynnig lle, caiff unrhyw gynnig a wnaed ar sail y cyfeiriad gwreiddiol ei ail-asesu.

Caiff dewisiadau eu hasesu ar sail cyfeiriad y cartref a nodir yn y cais ac sy'n ddilys adeg dyddiad cau'r ceisiadau. Ni ellir ystyried newid cyfeiriad ar ôl y dyddiad cau tan rownd nesaf y derbyniadau.

Caiff llefydd a ddyrennir ar sail cyfeiriad sy'n ddilys ar y dyddiad cau ond nad yw'n gyfeiriad cartref y plentyn bellach ei ail-asesu ar sail eu cyfeiriad newydd yn rownd nesaf y ceisiadau. Golyga'r newid cyfeiriad hwn yr ystyrir y cais fel cais newydd yn y rownd nesaf.

Caiff cynigion lle eu hail-asesu ac:

- os yw'r cyfeiriad newydd yn bodloni maen prawf pan fo gormod o geisiadau uwch (neu'r un maen prawf ond mae'r cyfeiriad yn nes), ni ddiddymir y cynnig cyntaf neu flaenorol.
- os yw'r cyfeiriad newydd yn bodloni maen prawf pan fo gormod o geisiadau sy'n is (neu yr un maen prawf ond mae'r cartref yn bellach), nag yn y rownd ceisiadau cyntaf neu flaenorol, caiff y cynnig lle ei ailasesu a châi ei gynnig i'r ymgeisydd yn y rownd hwnnw sy'n bodloni'r maen prawf uchaf pan fo gormod o geisiadau.

Byddai'r Cyngor yn ystyried newid cyfeiriad yn y rownd ceisiadau sy'n dilyn yn uniongyrchol symud i eiddo, pan yw tystiolaeth o'r newid cyfeiriad wedi ei chyflwyno ac wedi ei derbyn a'i dilysu fel tystiolaeth ddigonol gan y Cyngor.

7.3 Plant sy'n Derbyng Gofal neu a Arferai Dderbyn Gofal.

Yn achos plentyn sy'n Derbyng Gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Lloegr (fel y diffinnir yn Adran 22 Deddf Plant 1989 ac Adran 74 Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles [Cymru] 2014), rhaid i'r Awdurdod Lleol (rhiant corfforaethol) wneud cais a dylid cyflwyno tystiolaeth ategol (Gorchymyn Gofal neu Orchymyn Gofal Dros Dro) ynghyd â'r cais. Yn dilyn ymgynghoriad ar briodoldeb yr ysgol a enwyd gan ystyried cefndir ac anghenion y plentyn, mae gan y Cyngor **ddyletswydd i dderbyn** y plentyn i'r ysgol a rhoi blaenoriaeth uchaf iddo yn y meini prawf pan fo rhagor o geisiadau na sydd o lefydd.

Yn achos plentyn a fu'n Derbyng Gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Lloegr (fel y diffinnir gan God Derbyniadau i Ysgol Llywodraeth Cymru, dogfen rhif 005/2013), rhaid cyflwyno tystiolaeth ategol (llythyr gan yr Awdurdod Lleol perthnasol [y rhiant corfforaethol blaenorol]) ynghyd â'r cais. Yn dilyn ymgynghoriad ar briodoldeb yr ysgol a enwyd gan ystyried cefndir ac anghenion y plentyn, mae ar y Cyngor **ddyletswydd i roi'r flaenoriaeth uchaf** i'r plentyn yn y meini prawf pan fo rhagor o geisiadau na sydd o lefydd.

7.4 Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

Gall yr awdurdod lleol ddewis enwi ysgol a gynhelir yn y CDU ar ddibenion sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn i ysgol benodol.

Ni fydd yr awdurdod lleol yn enwi ysgol mewn CDU, at ddibenion sicrhau mynediad, oni bai fod anghenion ac amgylchiadau'r plentyn gyfryw ag y dylent fod yn mynychu'r ysgol benodol honno.

Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried yn ffactorau canlynol:

- Pa un ai yw nodweddion penodol yr ysgol yn ei gwneud yn arbennig o dda wrth wneud y ddarpariaeth gofynnol yn y DDY (darpariaeth dysgu ychwanegol) o'i chymharu ag ysgolion eraill a gynhelir y gallai'r plentyn eu mynychu – er enghraifft, nodweddion ffisegol yr ysgol;
- Pa un ai a oes aelodau staff gan yr ysgol sydd ag arbenigedd neu hyfforddiant arbennig, neu arbenigedd o ran angen isel o ran niferoedd fel offer clywed neu weld (er enghraifft os oes canolfan adnoddau arbenigol gan yr ysgol);
- Byddai'n afresymol i ysgol fwy lleol ddarparu DAY (darpariaeth dysgu ychwanegol) y plentyn;
- Unrhyw ffactorau eraill y tybia'r awdurdod lleol sydd yn berthnasol i achos penodol.

7.5 Byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol

Gellir gweld diffiniad o ddalgylchoedd ysgolion cynradd ac uwchradd cymunedol ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

7.6 Rhesymau Meddygol/Cymdeithasol Cryf

I gymhwyso ar gyfer seiliau meddygol neu gymdeithasol cryf, rhaid cyflwyno argymhelliad gan ymgynghorydd meddygol neu weithiwr cymdeithasol nad yw'n hŷn na 6 mis ar ddyddiad cyflwyno'r cais, sy'n nodi rhesymau dros dderbyn y plentyn mewn ysgol benodol.

7.7 Brodyr a chwiorydd

Câi cais ei ystyried dan y maen prawf brodyr a chwiorydd petai brawd/chwaer, a'r ymgeisydd wrth gael ei dderbyn, yn mynychu'r un ysgol ar yr un pryd.

Ni fydd y Cyngor ond yn ystyried brodyr a chwiorydd o oedran ysgol gorfodol (ar gyfer ceisiadau i ysgolion meithrin a chynradd, cyfeiria hyn at y Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 ac ar gyfer ceisiadau i ysgolion uwchradd, cyfeiria hyn at Flwyddyn 7 i 11):

- Enw yn glir ar y cais **ac**
- yn byw yn yr un cyfeiriad â'r plentyn sy'n destun y cais **ac**
- yn mynychu'r ysgol gynradd ddewis (nid ysgol feithrin) **neu**
- yn mynychu'r ysgol uwchradd ddewis (nid y chweched dosbarth).

At ddibenion derbyn, mae brawd/chwaer yn cynnwys hanner brawd/chwaer (plant y mae ganddynt un rhiant yn gyffredin); llysfrawd/llyschwaer (lle mae dau blentyn yn perthyn yn sgil priodas eu rhieni, rhieni yn cyd-fyw neu mewn partneriaeth sifil); plentyn wedi ei fabwysiadu neu ei faethu.

7.8 Brawd/Chwaer genedigol lluosog

Mae angen gwneud cais ar wahân dros bob plentyn. Câi pob cais e ystyried ar sail y meini prawf pan fo rhagor o geisiadau na sydd o lefydd y mae pob plentyn yn eu bodloni.

7.9 Agosrwydd

*Y maes prawf hwn yw'r olaf a gaiff ei ddefnyddio o bob maen prawf. Pan fo nifer y dewisiadau yn fwy na nifer y llefydd sydd ar gael mewn unrhyw faen prawf uwch, defnyddir agosrwydd i benderfynu pa ddisgyblion a dderbynnir.

Mae'r Cyngor wedi datblygu System Wybodaeth Ddaearyddol y cyfeirir ati fel 'Rhwydwaith Trafnidiaeth Integredig' a gaiff ei gyflunio yn unol â meini prawf pennu llwybr Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008 a Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio Dysgwyr 2014. Cyfrifir y llwybr byrraf diogel sydd ar gael (fel y diffinnir gan Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredu Teithio Dysgwyr Lywodraeth Cymru Mehefin 2014) (i bedwar lle degol) o gyfeiriannau cyfeiriad cartref ymgeisydd (a geir trwy ddefnyddio data pwynt cyfeiriad y Mynegai Ddaearyddol Tir ac Eiddo Lleol) at gât agored agosaf yr ysgol gan ddefnyddio data llwybr yr Arolwg Ordnans.

- a) Pan nad oes llwybr diogel ar gael, defnyddir y pwynt agosaf at gyfeiriad cartref yr ymgeisydd ar y Rhwydwaith Trafnidiaeth Integredig i gyfrifo'r ffordd yrru fyrraf at gât agored agosaf yr ysgol.
- b) Penderfynu: Pan yw fflatiau yn defnyddio'r un gyfeiriannau pwynt cyfeiriad yn y Mynegai Ddaearyddol, penderfynir ar y llwybr asesu o fynedfa flaen pob fflat.

Ar gyfer ceisiadau i ddisgyblion sy'n byw o fewn tir mawr y DU ond y tu allan i ardal y rhwydwaith trafndiaeth integredig, caiff pellteroedd preswylfa i'r ysgol eu cyfrifo fel y pellter gyrru byrraf yn ôl mapiau Google.

Pan fo ymgeiswyr yn y byw y tu allan i dir mawr Prydain, caiff pellteroedd llwybrau eu pennu fel y llwybr byrraf yn ôl mapiau Google gan ddefnyddio'r mathau o drafnidiaeth sydd ar gael.

- 8. Tystiolaeth Ddogfen Mae'n Bosibl Y Bydd Ei Hangen Gan Ymgeiswyr**
Gall y Cyngor ofyn i ymgeiswyr gyflwyno dogfennau **clir a darllenadwy** (e-bost: **derbyniysgolion@caerdydd.gov.uk** **<<mailto:derbyniysgolion@caerdydd.gov.uk>>** i brofi eu honiad eu bod yn **bodloni un neu ragor o feini prawf derbyn**. Pan na dderbynnir tystiolaeth ddogfen foddhaol, ni chyingir lle mewn ysgol sydd wedi derbyn rhagor o geisiadau na sydd o lefydd ynddi ar sail y seiliau derbyn a honnir.

Yn dibynnu ar gydsyniad ymgeisydd wrth gyflwyno cais, gellir dilysu tystiolaeth gerbron asiantaethau llywodraethol eraill, yn cynnwys (os yw'n briodol) ysgol bresennol y plentyn.

8.1 Dogfennau sy'n berthnasol i blentyn Personél Lluoedd neu Weision eraill y Goron

Caiff plant personél lluoedd y DU (Lluoedd Arfog y DU) neu Weision eraill y Goron eu trin fel petaent yn byw yn lle byddant yn byw yn y dyfodol os cyflwynant eu cais ynghyd â llythyr gan swyddog y Weinidogaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad yn datgan dyddiad meddiannu'r cyfeiriad pendant a chadarnhad o'r cartref newydd neu gyfeiriad post yr uned.

Caiff ceisiadau ar gyfer plant personél gwasanaeth blaenorol neu Weision eraill y Goron blaenorol eu trin fel pob cais arall.

Pan fo ceisiadau y tu allan i'r arferol ar gyfer plant personél gwasanaeth y DU neu Weision eraill y Goron yn aflwyddiannus, caiff rhieni apelio yn erbyn y penderfyniad hwn a gwrandewid ar unrhyw apêl yn ôl tref apêl rhagfarn arferol.

8.2 Cyflwyno dogfennau sy'n gysylltiedig i Gyfeiriad Cartref Plentyn

Pan wneir cais am le mewn ysgol neu mewn blwyddyn y mae disgwyl y bydd yn llawn, ac yn dibynnu ar gydsyniad ymgeisydd pan wneir cais, bydd y Cyngor yn profi cofnodion sydd gan y Dreth Gyngor, y Gofrestr Etholiadol, ysgol y plentyn (os yw'n briodol) a sefydliadau allanol, yn cynnwys asiantaethau atgyfeiriadau credyd.

Pan fo pryder ynghylch cysondeb gwybodaeth, mae'n bosibl y bydd gofyn am ragor o dystiolaeth.

I brofi preswylfa mewn 'Cyfeiriad Cartref Plentyn', mae'n bosibl y gofynnir am y dogfennau canlynol:

Tystiolaeth Preswylfa mewn Cyfeiriad Presennol

Cytundeb Tenantiaeth:

- Rhaid i'r Dyddiad Cychwyn Tenantiaeth fod ar neu cyn y dyddiad cyflwyno cais **ac** mae'n rhaid i Ddyddiad Diweddu Tenantiaeth fod ar neu ar ôl y dyddiad y byddai'r plentyn yn cychwyn yn yr ysgol.

Datganiad Morgais:

- Rhaid i ddyddiad y datganiad fod nid hirach na chwe mis cyn dyddiad cyflwyno'r cais.

Gohebiaeth y Dreth Gyngor (bil/llythyr/datganiad):

- Yn cyfeirio at daliadau a wneir yn y flwyddyn ariannol bresennol ar gyfer eiddo a hawlir fel cyfeiriad cartref plentyn.

Gohebiaeth Cyflenwr Gwasanaethau'r Cartref (bil/llythyr/datganiad trydan/nwy/dŵr):

- Yn cyfeirio at daliadau a wnaed yn y flwyddyn ariannol bresennol ar gyfer eiddo a hawlir fel cyfeiriad cartref plentyn;
- Rhaid i'r biliau Trydan a Nwy (neu Ynni Deuol) fod nid hŷn na chwe mis cyn ddyddiad cyflwyno'r cais.

Gohebiaeth Budd-daliadau Plant:

- Rhaid i ddyddiad yr ohebiaeth fod nid hŷn na chwe mis cyn dyddiad cyflwyno'r cais.

Tystiolaeth Preswylfa mewn Cyfeiriad Newydd

Os yw plentyn yn symud i gyfeiriad newydd wedi dyddiad cau'r ceisiadau a chyn y dyddiad cychwyn yn yr ysgol:

Eiddo Rhent:

- Bydd gofyn am gytundeb tenantiaeth newydd y mae'n rhaid iddo nodi dyddiad diweddu ar neu ar ôl pan fyddai'r plentyn yn cychwyn yn yr ysgol;

Eiddo a Berchnogir:

- Bydd gofyn am ddogfen cyfnewid contractau â dyddiad nid mwy na chwe mis cyn dyddiad cyflwyno'r cais.

Os nad yw'r Cyngor yn fodlon ar y dystiolaeth a gyflwynwyd, ni dderbynnir 'cyfeiriad cartref y plentyn' fel yr honnir at ddibenion y cais.

8.3 Cyflwyno dogfennau sy'n berthnasol i Seiliau Meddygol Cryf neu Seiliau Cymdeithasol Cryf

I gymhwyso ar gyfer seiliau meddygol neu gymdeithasol cryf, rhaid cyflwyno argymhelliad gan ymgynghorydd meddygol neu weithiwr cymdeithasol nad yw'n hŷn na 6 mis ar ddyddiad cyflwyno'r cais, sy'n nodi rhesymau dros dderbyn y plentyn mewn ysgol benodol.

Yn dibynnu ar gydsyniad ymgeisydd wrth gyflwyno cais, gellir dilysu dystiolaeth gerbron asiantaethau llywodraethol eraill, yn cynnwys (os yw'n briodol) ysgol bresennol y plentyn.

9. Proses Cynigion

9.1 Cynigion Ysgol

Os gellid cynnig mwy nag un lle i blentyn, caiff dewis ysgol uchaf yr ymgeisydd ei gynnig. Cynigir unrhyw le ysgol arall y gellid ei gynnig i blentyn arall.

Ni chaiff penderfyniadau ac atebion eu trin dros y ffôn.

Anfonir cadarnhad ysgrifenedig (e-bost neu lythyr).

Gallai unrhyw gynnig na dderbyniwyd erbyn y dyddiad a nodir ar yr hysbysiad penderfynu gael ei dynnu yn ôl a'i gynnig i blentyn arall.

Os yw'r cynnig i ddewis ysgol gymunedol neu wirfoddol a reolir uwch yn cael ei wrthod gan yr ymgeisydd ar y sail fod ymgeisydd yn datgan fod dewis ysgol gymuneol neu wirfoddol a reolir fu gynt yn is bellach yn ddewis cyntaf, rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cais newydd ar gyfer y dewis ysgol gymunedol neu wirfoddol a reolir hon i gael ei ail-ystyried.

9.2 Dim Cynnig Ysgol

Caiff ymgeiswyr sy'n derbyn cadarnhad ysgrifenedig (e-bost neu lythyr) yn dweud nad yw eu plentyn wedi cael cynnig lle yn unrhyw un o'i ddewis ysgolion, ffurflen ddewis arall, a manylion ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir y mae ynddynt lefydd gwag (ar gyfer ceisiadau am dderbyn i grŵp oedran ysgol gorfodol) ynghylch eu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad.

9.3 Changes of circumstances

Bydd y Cyngor yn ystyried fod amgylchiadau ymgeisydd wedi newid, ac fe gaiff y cais ei ystyried fel cais newydd, os:

- Bydd yr ymgeisydd wedi newid cyfeiriad, neu
- Bydd yr ymgeisydd yn bodloni meini prawf gordanysgrifio uwch nag a ystyriwyd yn ei gais blaenorol.

Bydd y newid amgylchiadau hyn yn cael eu hystyried gan y Cyngor o'r dyddiad lle bydd y Cyngor yn derbyn tystiolaeth ddigonol o'r newid hwnnw. Gallai tystiolaeth o'r fath fod yn brawf preswylad yn y cyfeiriad newydd, cadarnhad fod brawd/chwaer wedi cofrestru yn yr ysgol lle mae'r ymgeisydd wedi dweud ei fod yn ei ffafrio, neu dderbyn llythyr sy'n bodloni meini prawf 'ar sail feddygol a/neu gymdeithasol cymhellol'.

9.4 Diddymu Cynnig Ysgol

Cyn y dyddiad y byddai'r plentyn yn cychwyn yn yr ysgol, gellid diddymu unrhyw le a gymeradwywyd os ceir nad yw amgylchiadau'r plentyn yn bodloni'r meini prawf derbyn y cynigiwyd y lle ysgol ar eu sail mwyach neu os ceir bod y cynnig lle wedi ei wneud dan amgylchiadau lle bu twyll neu os cynigiwyd y lle mewn camgymeriad. Anfonir penderfyniad ysgrifenedig newydd (e-bost neu lythyr).

Bydd unrhyw gynnig o le Dosbarth Derbyn mewn ysgol gynradd gymunedol yn cael ei dynnu yn ôl gan y Cyngor os nad yw'r plentyn yn mynychu'r ysgol o fewn 20 diwrnod ysgol wedi dechrau'r tymor ysgol yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed.

Bydd unrhyw gynnig o le adeg mynediad i Flwyddyn 7 mewn ysgol uwchradd gymunedol yn cael ei dynnu yn ôl gan y Cyngor os nad yw'r plentyn yn mynychu'r ysgol o fewn 20 diwrnod ysgol wedi dechrau tymor yr hydref 2022.

Gall y Cyngor dynnu cynnig o le mewn ysgol yn ôl o ddisgybl sy'n trosglwyddo rhwng ysgolion o fewn blwyddyn ysgol os na fydd y plentyn yn mynychu'r ysgol o fewn 20 diwrnod ysgol wedi i'r lle gael ei gynnig.

Fodd bynnag, os nad oes rheswm wedi'i roi dros fethiant y plentyn i ddechrau, rhaid i'r ysgol hysbysu'r cyngor ar unwaith fel y gellir cynnal ymholiadau Plant sy'n Colli Addysg i sefydlu lle mae'r plentyn. Wedi i'r rhain gael eu cwblhau, bydd y lle'n cael ei ail-ddyrannu.

9.5 Rhestrau Aros

Pan yw ymgeisydd wedi cael gwrthod mynediad i ysgol feithrin, gynradd neu uwchradd gymunedol neu wirfoddol a reolir, rhoddir yr ymgeisydd ar restr aros ar gyfer yr ysgol ddewis ac eithrio os yw'r ymgeisydd yn dweud wrth y Cyngor ei dynnu oddi ar y rhestr aros.

Bydd ceisiadau aflwyddiannus ar gyfer derbyni ysgol Feithrin i gychwyn o ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd plentyn yn dair oed, yn aros ar y rhestr aros tan ddiwedd 2023.

Bydd ymgeiswyr 'ar amser' aflwyddiannus ar gyfer eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn neu Flwyddyn 7 i gychwyn o ddechrau'r flwyddyn academaidd (sef 'y rownd derbyniadau arferol') yn aros ar y rhestr aros tan yr 30 Medi 2022.

Bydd ceisiadau aflwyddiannus ar gyfer eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 11 (yn cynnwys y ddwy hon) a dderbyniwyd y tu allan i'r rownd derbyn arferol (sef 'cais yn ystod y flwyddyn') yn aros ar y rhestr aros tan ddiwedd y tymor y byddai'r plentyn yn cychwyn yn yr ysgol.

Sylwch nad ydym yn blaenoriaethu lleoedd ar sail y cyfnod y mae'r plentyn wedi bod ar y rhestr aros. Mae'r flaenoriaeth yn amrywio yn unol â'r meini prawf cyhoeddedig pan fo mwy o geisiadau na lleoedd. Caiff eich cais ei ystyried yn unol â'r meini prawf a chaiff unrhyw le oedd sy'n dod ar gael eu dyrannu ar y sail honno. Gallai safle plentyn ar y rhestr aros newid, gan y gallai ceisiadau ddod i law sydd â blaenoriaeth uwch dan y meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd.

Os yw plentyn ar restr aros yn cael lle, bydd y Cyngor yn cysylltu â'r ymgeisydd ac yn gofyn iddo gadarnhau p'un a yw'n derbyn y lle. Rhaid derbyn lle trwy'r Porthol Derbyniadau Ar-lein, neu yn ysgrifenedig neu drwy e-bost. Wrth dderbyn, caiff unrhyw le ysgol arall mae'r plentyn wedi cael ei gynnig ei ryddhau a'i roi i blentyn arall.

Wedi cyrraedd dyddiad pellaf y rhestr aros, os dymuna rhiant i'w blentyn barhau i gael ei ystyried am le, bydd rhaid cyflwyno cais newydd.

Ni warentir cynigir lle i blentyn yn ysgol ei ddalgylch nac mewn ysgol lle'r aiff brawd/chwaer iddo.

Atodiad 1

Niferoedd Derbyn i Ysgolion 2020/21

Ysgolion Cynradd Cymunedol	Nifer Derbyn
Ysgol Gynradd Adamsdown	60
Ysgol Gynradd Albany	60
Ysgol Gynradd Allensbank	30
Ysgol Gynradd Baden Powell	60
Ysgol Gynradd Llwynbedw	58
Ysgol Gynradd Bryn Celyn	30
Ysgol Gynradd Bryn Deri	30
Ysgol Gynradd Bryn Hafod	60
Ysgol Gynradd Coed Glas	75
Ysgol Gynradd Coryton	30
Ysgol Gynradd Creigiau (Saesneg)	29
Ysgol Gynradd Danescourt	60
Ysgol Gynradd y Tyllgoed	40
Ysgol Gynradd Gabalfa	30
Ysgol Gynradd Gladstone	30
Ysgol Gynradd Glan-yr-Afon	30
Ysgol Gynradd Glyncoed	60
Ysgol Gynradd Grangetown	60
Ysgol Gynradd Greenway	30
Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth (Saesneg)	7
Ysgol Gynradd Hawthorn	30
Ysgol Gynradd Herbert Thompson	60
Ysgol Gynradd Howardian	60
Ysgol Gynradd Hywel Dda	60
Ysgol Gynradd Kitchener	60
Ysgol Gynradd Lakeside	60
Ysgol Gynradd Lansdowne	60
Ysgol Gynradd Llanedern	55
Ysgol Gynradd Llanisien Fach	60
Ysgol Gynradd Llysfaen	60
Ysgol Gynradd Marlborough	60
Ysgol Gynradd Meadowlane	45
Ysgol Gynradd Millbank	30
Ysgol Gynradd Moorland	60

CYNGOR CAERDYDD: POLISI DERBYN I YSGOLION
ADDYSG A DYSGU GYDOL OES: 2022/2023

Ysgolion Cynradd Cymunedol	Nifer Derbyn
Ysgol Gynradd Mount Stuart	60
Ysgol Gynradd Parc Ninian	90
Ysgol Gynradd Oakfield	60
Ysgol Gynradd Pencaerau	30
Ysgol Gynradd Pentre-baen	30
Ysgol Gynradd Pentyrch	20
Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn	30
Ysgol Gynradd Peter Lea	45
Ysgol Gynradd Pontprennau	60
Ysgol Gynradd Radnor	45
Ysgol Gynradd Radur	60
Ysgol Gynradd Rhiwbeina	75
Ysgol Gynradd Rhydypenau	60
Ysgol Gynradd Parc y Rhath	58
Ysgol Gynradd Tredelerch	60
Ysgol Gynradd Severn	60
Ysgol Gynradd Springwood	60
Ysgol Gynradd Stacey	30
Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig	60
Ysgol Gynradd Tongwynlais	28
Ysgol Gynradd Ton-yr-Ywen	60
Ysgol Gynradd Trelái	60
Ysgol Gynradd Trowbridge	30
Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd	90
Ysgol Gynradd Willowbrook	60
Ysgol Gynradd Windsor Clive	60
Ysgol Bro Eirwg	60
Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof	60
Ysgol Gynradd Creigiau (Cymraeg)	29
Ysgol Glan Ceubal	30
Ysgol Glan Morfa	60
Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth (Cymraeg)	26
Ysgol Hamadryad	60
Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd	60

Ysgolion Cynradd Cymunedol	Nifer Derbyn
Ysgol Mynydd Bychan	45*
Ysgol Pencae	30
Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-y-Groes	30
Ysgol Gymraeg Pwll Coch	60
Ysgol Gymraeg Treganna	90
Ysgol y Berllan Deg	60
Ysgol y Wern	75
Ysgol Gymraeg Nant Caerau	30
Ysgol Pen-y-Pil	30
Ysgol newydd 'Plasdŵr' (Cymraeg)	30
Ysgol newydd 'Plasdŵr' (Saesneg)	30
Ysgolion Cynradd Gwirfoddol a Reolir	Nifer Derbyn
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg	30
Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir	Nifer Derbyn
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Hollsaint	30
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Bishop Childs	30
Ysgol Gynradd Gatholig Iesu'r Brenin	30
Ysgol Gynradd Gatholig Y Teulu Sanctaidd	35
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandaf	60
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban	30
Ysgol Gynradd Gatholig y Sant Bernadette	30
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Cadog	45
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Cuthbert	22
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant	30
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Ffagan	30
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis	55
Ysgol Gynradd Gatholig Sant John Lloyd	45
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff	30
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair Forwyn	60
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair	37
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Fonica	20
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig	45
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Pawl	30
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr	60
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans	52
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegar	30

Ysgolion Uwchradd Cymunedol	Nifer Derbyn
Ysgol Uwchradd Cantonian	181
Ysgol Uwchradd Caerdydd	240
Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd	240
Ysgol Uwchradd Cathays	240**
Ysgol Uwchradd y Dwyrain	240
Ysgol Uwchradd Fitzalan	300
Ysgol Uwchradd Llanisien	300
Ysgol Gyfun Radur	210
Ysgol Uwchradd Willows	224
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	240
Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr	210
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern	180
Ysgolion Uwchradd Sefydledig	Nifer Derbyn
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd	390
Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr	Nifer Derbyn
Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf	180
Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi	215
Ysgol Uwchradd Gatholig Mair Ddihalog	159
Ysgol Uwchradd Gatholig Illtud Sant	176
Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Yng Nghymru Teilo Sant	240

Dylid nodi wrth fynd a chynigion ad-drefnu ysgolion yn eu blaenau, mae'n bosib y bydd rhai niferoedd derbyn yn gorfod cael eu newid.

* Yn amodol ar gymeradwyaeth Cabinet y Cyngor i'r cynnig i gynyddu capasiti yr ysgol i 315 o lefydd

** Yn amodol ar gydsyniad cynllunio ar gyfer amnewid a llety dros dro ychwanegol ar safle'r ysgol